**Dinas a Sir Abertawe**

# Cofnodion Cyfarfod y Panel Perfformiad Craffu - Gwasanaethau Plant a Theuluoedd

**O bell drwy Microsoft Teams**

**Dydd Mawrth, 25 Ionawr 2022 am 4.00 pm**

**Yn Bresennol**: Y Cynghorydd P R Hood-Williams (Cadeirydd) oedd yn llywyddu

| **Y Cynghorydd(wyr)** | **Y Cynghorydd(wyr)** | **Y Cynghorydd(wyr)** |
|---|---|---|
| C Anderson | A M Day | M Durke |
| K M Griffiths | Y V Jardine | W G Lewis |
| D W W Thomas | | |

**Hefyd yn bresennol**

| | |
|---|---|
| Elliott King | Aelod y Cabinet - Gwasanaethau Plant |

**Swyddog(ion)**

| | |
|---|---|
| Julie Davies | Pennaeth y Gwasanaethau Plant a Theuluoedd |
| Liz Jordan | Swyddog Craffu |

**Ymddiheuriadau am absenoldeb**
Y Cynghorydd(wy): E T Kirchner

---

## 1 Datgeliadau o fuddiannau personol a rhagfarnol

Ni ddatgelwyd unrhyw fuddiannau.

## 2 Gwahardd Pleidleisiau Chwip a Datgan Chwipiau'r Pleidiau

Ni wnaethpwyd unrhyw ddatganiadau.

## 3 Cofnodion Cyfarfod(ydd) Blaenorol

Cytunodd y panel fod nodiadau'r cyfarfod a gynhaliwyd ar 13 Rhagfyr 2021 yn gofnod cywir o'r cyfarfod.

## 4 Cwestiynau Gan y Cyhoedd

Ni chyflwynwyd unrhyw gwestiynau.

## 5 Adroddiad uchafbwyntiau Perfformiad a'r Cynllun Staffio Brys

Roedd Julie Davies, Pennaeth Gwasanaethau Plant a Theuluoedd yn bresennol i friffio'r Panel ar yr eitem hon.

Pwyntiau Trafod:

- Monitro Perfformiad - Mae mwy o deuluoedd yn cael eu cefnogi drwy ganolfannau cymorth cynnar sy'n dangos bod eu dull gweithredu'n fwy rhagweithiol. Mae'r nifer uwch o blant sydd wedi'u cofrestru ar y gofrestr amddiffyn plant ar adeg eu geni yn parhau i fod ar gynnydd. Mae gostyngiad amlwg yn nifer cyfartalog y diwrnodau y mae plant ar y gofrestr amddiffyn plant.
- Cadarnhaodd swyddogion fod y ffigur ar gyfer Nifer y Diwrnodau ar y Gofrestr Amddiffyn Plant yn dangos dull rhagweithiol mwy gweithredol o gefnogi teuluoedd fel nad yw plant yn aros ar y Gofrestr Amddiffyn Plant yn hirach nag y dylent fod.
- Nododd y panel y cynnydd mewn plant heb eu geni sy'n cael eu cymryd i ofal a holodd faint o esboniad a roddir i'r fam. Dywedodd swyddogion fod y gyfarwyddiaeth yn edrych ar bob achos yn unigol, ac mae'r ffocws bob amser ar weithio gyda rhieni i geisio galluogi'r baban i aros yn yr uned deuluol.
- Mae'r panel yn pryderu am gefnogaeth i ffoaduriaid a theuluoedd sy'n ceisio lloches gan fod llawer o deuluoedd yn cael eu lleoli dros dro ac yna'n cael eu symud i ran wahanol o'r ddinas. Holodd y panel a oes unrhyw ddarpariaeth arbennig yn cael ei rhoi ac ynghylch y system gymorth sydd ar waith ar eu cyfer. Cadarnhawyd y byddai'r gyfarwyddiaeth yn cydweithio â gwasanaethau'r cyngor a gwasanaethau lleol i gynnig cymorth i deuluoedd y maent yn ymwybodol ohonynt os ydynt yn bodloni'r trothwy statudol neu'n dod drwy'r Ganolfan Cymorth Cynnar.
- Dywedodd y Panel fod y ffigurau'n drawiadol o ran y ffordd y mae nifer y plant sy'n derbyn gofal wedi bod yn lleihau, yn enwedig o dan yr amgylchiadau presennol, sy'n glod i'r adran. Mae'r adran yn fodlon bod ailgyfeiriadau a chofrestriadau yn gymharol isel o hyd.
- Staffio Mewn Argyfwng – Nid yw'r gyfarwyddiaeth wedi recriwtio o hyd i lenwi swyddi gwag gweithwyr cymdeithasol mewn timau ardal leol. Cafwyd mwy o lwyddiant o ran y 'drws blaen' gan y gellir penodi gweithwyr cefnogi, sy'n lleddfu rhywfaint o'r pwysau ar y timau ardal. Mae'r adran yn parhau i gael cymorth gan bob rhan o'r gwasanaeth i sicrhau bod dyletswyddau statudol allweddol yn cael eu bodloni ac i sicrhau gweithwyr cymdeithasol annibynnol os oes angen ar gyfer tasgau allweddol.
- Nid oes digon o leoliadau ar gael, felly mae'r adran yn gorfod defnyddio llawer o'i staff ei hun i ddarparu gofal a chymorth i blant mewn lleoliadau nad ydynt yn cael eu rheoleiddio ac mae mwy o blant yn cael eu lleoli yn Lloegr. Rhan o'r broblem yw menter Llywodraeth Cymru i ddileu elw o ofal cymdeithasol plant ac o ganlyniad, penderfynodd rai darparwyr atal cynlluniau yn y dyfodol i symud i Gymru i ddatblygu lleoliadau neu maent wedi penderfynu peidio â pharhau i gynnig lleoliadau i blant yng Nghymru.
- Mae'r gyfarwyddiaeth yn parhau i weithio gyda phrifysgolion lleol fel y gall fwydo'n fwy uniongyrchol i'r gwasanaeth er mwyn i weithwyr cymdeithasol sydd newydd gymhwyso weithio ar achosion lefel is.
- Cadarnhaodd swyddogion nad yw'r pandemig presennol wedi effeithio cymaint ar staffio ag yr ofnwyd a bod cynllun wrth gefn COVID wedi'i ailgyflwyno.
- Gofynnodd y Panel am gadarnhad bod cwmnïau maethu annibynnol yn ystyried camu i ffwrdd o Gymru a chlywodd fod rhai darparwyr yn camu i ffwrdd

oherwydd ansicrwydd o ran yr hyn y bydd y rhaglen yn ei olygu o ran dileu elw o ofal preswyl plant.

- Holodd y panel a yw Llywodraeth Cymru yn ystyried ailfuddsoddi'r elw mewn addysg plant sy'n derbyn gofal er mwyn helpu i ariannu'r math hwn o ddarpariaeth ar gyfer y bobl ifanc fwyaf diamddiffyn. Dywedodd Aelod y Cabinet mai dymuniad Llywodraeth Cymru yw cael gwared ar elw o ofal cymdeithasol plant ond mae'n credu y bydd buddsoddiad gan Lywodraeth Cymru yn y tymor hir.

## 6 Ameren y Rhaglen Waith ar gyfer 2021-22

Nododd y Panel eitemau ar y rhaglen waith ar gyfer gweddill y flwyddyn ddinesig hon.

Daeth y cyfarfod i ben am 4.45 pm